COFNOD O BENDERFYNIAD GAN AELOD CABINET

Penderfyniad a wnaed gan:

Aelod Arweiniol dros Wastraff, Cludiant a'r Amgylchedd

Dyddiad y penderfyniad:

13 Medi 2021

Dyddiad cyhoeddi'r penderfyniad:

13 Medi 2021

Penderfyniad:

DYRANNU CONTRACT ADEILADU AR GYFER PROSIECT GWELLA HEOL Y CASTELL, LLANGOLLEN 2020

I gymeradwyo dyfarnu'r contract adeiladu ar gyfer prosiect gwella Heol y Castell Llangollen 2020 i Adrian Parry Construction Limited.

Bwriad y penderfyniad:

Gofyn am gymeradwyaeth gan yr Aelod Arweiniol i ddyrannu contract adeiladu ar gyfer prosiect gwella Heol Y Castell, Llangollen 2020.

Rhesymau dros wneud y penderfyniad:

Mae gwerth y tendr buddugol gan Adrian Parry Construction Limited yn fwy na £1.0 miliwn. Gan fod gwerth y contract yn fwy na £1.0 miliwn, rhaid cael Penderfyniad Dirprwyedig gan yr Aelod Arweiniol yn unol â Rheolau Gweithdrefn Gontractau'r Cyngor.

Cysylltiadau a ddatganwyd:

Dim cysylltiad i'w ddatgan.

Ymgynghoriad:

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori cyhoeddus cynhwysfawr ym mis Mehefin 2021 i geisio barn y trigolion, perchnogion busnesau a budd-ddeiliaid allweddol eraill am y cynllun ei hun. Cafwyd crynodeb o'r adborth a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 27/7/21.

Yr awdurdod i ddirprwyo'r penderfyniad i'r Aelod Cabinet:

Gweler y Cynllun Dirprwyo.